Cyfrifiadura – HNC (Rhan-Amser)

Bydd y rhaglen hon yn gweddu i fyfyrwyr sy'n gweithio neu sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant cyfrifiadura. Mae cyfrifiaduron yn hanfodol i lawer o ddiwydiannau a byddwch yn datblygu sgiliau mewn sawl maes. Mae modiwlau'n cynnwys: Sgiliau Busnes ar gyfer e-Fasnach, Systemau Cyfrifiadurol, Cyflogadwyedd a Datblygiad Proffesiynol, Dylunio Gwefannau, Dadansoddi a Dylunio Systemau a Chysyniadau Dylunio Cronfeydd Data

Gofynion Mynediad

Mae'r meini prawf mynediad yn nodi cynnig nodweddiadol ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais ar sail unigol sy'n golygu y gallem wneud cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, proffil personol a phrofiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich cynnig cysylltwch â'n Tîm Derbyn. Dylai dysgwyr fod yn 18 oed o leiaf a meddu ar y canlynol - 2 Safon Uwch â gradd E neu broffil PP/PPP o gymhwyster Lefel 3 BTEC a 5 TGAU â Gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cydwerth). Mae croeso i ddysgwyr h?n nad ydynt yn meddu ar gymwysterau ffurfiol ar Lefel 3, ond sy'n gallu dangos profiad gwaith perthnasol mewn cyfrifiadura neu TGCh a/neu eu bod wedi ennill ystod o gymwysterau proffesiynol mewn cyfrifiadura neu TGCh wneud cais hefyd.

Rhagolygon Gyrfa

Y llwybr datblygiad cydnabyddedig yw'r HND mewn Cyfrifiadura a Datblygu Systemau. Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn disgyblaethau sy'n gysylltiedig â TGCh, er enghraifft: peirianwyr meddalwedd, datblygwyr meddalwedd, rheolwyr gwybodaeth, dylunwyr gwefannau a chymorth technegol.

Asesiad

Bydd yn rhaid i chi gwblhau cyflwyniadau ac aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi gamu ymlaen drwy'r rhaglen.

DULL ASTUDIO
PT

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

HYD Y CWRS
2Y

FFIOEDD
19/20 fees: £1,200